

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Cynllun y Sector Gwirfoddol

# Adroddiad Blynyddol 2008-09

Chwefror 2010



75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 5528 2
© Hawlfraint y Goron Chwefror 2010
CMK-22-04-045(468)
E4400910

# Rhagair

Fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros Gynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth y Cynulliad, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2008-09.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio i roi ar waith ystod o gamau sy'n deillio o gyhoeddi 'Y Trydydd Dimensiwn – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol' (y "Trydydd Dimensiwn") sef ein Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y mudiadau gwirfoddol, mudiadau cymunedol a mentrau cymdeithasol. Rydym yn cyfeirio at y rhain i gyd yn awr fel y Trydydd Sector.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio amrywiaeth eang gweithgarwch y Trydydd Sector a chyfraniad aruthrol ei staff, ei ymddiriedolwyr a'i wirfoddolwyr i'n cymunedau.

Eleni, rydym yn rhoi cynnig ar fformat newydd ar gyfer yr adroddiad hwn. Er bod llawer o fanylion i'w gweld yn ein hadroddiadau blaenorol, mae'n bosibl nad oeddent yn berthnasol iawn i bobl yng Nghymru. Rwyf am i'r unigolyn ar y stryd ei chael yn haws deall yr adroddiad. Nid yw hyn yn golygu bod ein cefnogaeth yn llai i'r Sector hwn, sydd yn ein tyb ni yn un o'n partneriaid allweddol.

Rwyf wedi ysgrifennu'r adroddiad gan ganolbwyntio ar y pum prif thema a nodwyd yn y Trydydd Dimensiwn:-

- Gwerthfawrogi gweithredu gwirfoddol
- Cryfhau a grymuso cymunedau
- Hwyluso 'iaith y dinesydd'
- Cyflymu menter gymdeithasol
- Personoli gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos sut rydym yn ariannu'r Sector, gyda manylion llawnach nag erioed am y cyllid a ddarperir gan adrannau unigol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd llawer o'r gwaith a nodwyd yn y Trydydd Dimensiwn yn dwyn ffrwyth yn y cyfnod a ddisgrifir yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Edrychaf ymlaen at flwyddyn arall o weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Trydydd Sector.





**Carl Sargeant AC**

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Mae'r adroddiad eleni yn dangos bod y bartneriaeth rhwng y Trydydd Sector a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau. Mae'n adlewyrchu'r ymgysylltiad eang rhwng pob adran yn Llywodraeth y Cynulliad a'r sector, gan gynnwys y cynnydd wrth roi ar waith y camau gweithredu yn y Trydydd Dimensiwn. Mae hyn wedi gosod agenda heriol i'r Llywodraeth ac edrychwn ymlaen at weld y cynnydd hwn yn parhau.

Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector wedi darparu fforwm i ystyried heriau sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth y Cynulliad a'r sector fel ei gilydd. Rydym wedi trafod rôl y Trydydd Sector o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gwell a rhai o'r heriau sy'n ei wynebu. Nid oes amheuaeth na all llawer o fudiadau helpu i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu trefnu a'u cyflenwi, a helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o weld gwasanaethau sy'n wirioneddol yn canolbwyntio ar y dinesydd.

Rydym hefyd wedi mynd i'r afael â'r tyndra rhwng anghenion hirdymor a chyllido tymor byr. O ganlyniad i hyn, cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gomisiynu ymchwil a allai ein helpu i gyflwyno trefniadau ariannu mwy cynaliadwy.

Yn olaf, rydym wedi edrych ar effaith y dirwasgiad presennol ar y sector a'r heriau parhaus y byddwn yn dal i'w hwynebu. Wrth i wariant cyhoeddus ddod dan fwy o wasgfa yn y dyfodol agos, bydd ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy God Ymarfer y Cynllun, i drin y sector yn deg wrth wneud penderfyniadau cyllido, yn bwysig dros ben. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi arweiniad ar gyfer llywodraeth leol a chyrff cyllido eraill yn y cyfnod anodd sydd i ddod.

**Win Griffiths**

Cadeirydd, CGGC

**Wales Council for Voluntary Action**

Registered Office – Head Office
Baltic House, Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FH

Tel 029 2043 1700
WCVA Helpdesk 0800 2888 329
Fax 029 2043 1701
Minicom 029 2043 1702
(use announcer)
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

**Offices also at Rhyl, Lampeter and Newtown**

**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

Swyddfa Gofrestredig – Prif Swyddfa
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH

Ffôn 029 2043 1700
Lein Gymorth WCVA 0800 2888 329
Ffacs 029 2043 1701
Minicom 029 2043 1702
(defnyddiwch y cyhoeddwr)
help@wcva.org.uk
www.wcva.org.uk

**Swyddfeydd hefyd yn Y Rhyl, Llanbedr Pont Steffan a'r Drenewydd**

Chair/Cadeirydd:
**Win Griffiths**
Vice-Chairs/Is-Gadeiryddion:
**Margaret Jervis MBE**
**Eurwen Edwards BEM**
Chief Executive/Prif Weithredydd:
**Graham Benfield OBE MA MSc (Econ)**
Hon Treasurer/Trysorydd Anrh:
**Chad Patel**
Secretary/Ysgrifennydd:
**Jan Bish**

Registered Charity/Elusen Gofrestredig 218093
Company Limited by Guarantee/
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 425299
Registered in Wales/Wedi ei gofrestru
yng Nghymru
VAT Registration No/Rhif TAW 736 6545 09

## Cyflawniadau Allweddol 2008-09



- Yn 2008 cadarnhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Trydydd Sector y byddai bron i £5 miliwn y flwyddyn yn cael ei ddarparu am bum mlynedd o dan Gytundeb Partneriaeth. Mae'r ddogfen honno'n ffurfioli'r trefniadau a wneir er mwyn i gyrff mantell (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol) gynorthwyo elusennau a mudiadau gwirfoddol ledled Cymru.
- Cymru, yn 2008, oedd y Genedl Masnach Deg gyntaf yn y byd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ac yn noddi Masnach Deg Cymru. Bu Masnach Deg Cymru yn llwyddiannus wrth arwain ymgyrch i gael awdurdodau lleol, trefi ac ysgolion i fod â grwpiau Masnach Deg gweithredol. Derbyniodd Canolfan Cydweithredol Cymru nawdd hefyd gan Lywodraeth y Cynulliad i gydweithio â busnesau a mentrau cymdeithasol er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynhyrchion Masnach Deg a hyrwyddo'r defnydd ohonynt.
- Lansiwyd Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol newydd 2009 ar gyfer Cymru ym mis Chwefror, i olynu Strategaeth Mentrau Cymdeithasol 2005. Datblygwyd y Cynllun Gweithredu mewn ymgynghoriad â'r Trydydd Sector ac mae'n cynnwys 20 o weithredoedd allweddol er mwyn datblygu mentrau cymdeithasol newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.
- Gyda chymorth Llywodraeth y Cynulliad, bu Canolfan Gydweithredol Cymru yn llwyddiannus yn ei chais am arian Cydgyfeirio i ddarparu cymorth ar gyfer datblygu mentrau cymdeithasol dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r prosiect hwn sy'n werth £7.2 miliwn – gan gynnwys arian cyfatebol o £3.6 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad – yn brosiect traws-gydgyfeirio o bwys.
- Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd i ddarparu £1.3 miliwn o arian dros dair blynedd ar gyfer Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Mentrau Cymdeithasol Cymru a Chronfa Bancio Cymunedol Robert Owen, er mwyn darparu gwasanaethau cymorth sy'n arbennig ar gyfer sector y mentrau cymdeithasol.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â'i phartneriaid er mwyn sicrhau y gall y Trydydd Sector gyfranogi'n llawn yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Ym Mhrosbectws Medi 2008, bu i ni gadarnhau ein bod o blaid cael y Trydydd Sector fel partner allweddol ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Rydym yn cydweithio â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru er mwyn helpu cynrychiolwyr y Trydydd Sector i wneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r byrddau.
- Ers ei sefydlu yn 2002, mae Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi cefnogi dros 8,800 o grwpiau gwirfoddol bach sydd yn gweithio er mwyn gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau ac annog cymunedau i wneud mwy er mwyn gwella eu hardal leol. Yn 2008 roedd cyfanswm yr arian grant oedd ar gael yn £4.2 miliwn. Ym Merthyr cefnogodd y Gronfa Ymddiriedolaeth therapydd lleol er mwyn darparu sesiynau blasu therapi cyflenwol i ofalu am les pobl ac fe arweiniodd hyn at fforwm sydd wedi cefnogi teithiau cerdded

iach, siop fwyd gydweithredol, cyrsiau maetheg, clwb arthritis, dosbarthiadau rhoi'r gorau i ysmygu, bwyta'n iach a sesiynau coginio, ymhlith llawer o weithgareddau eraill.

- Mae tiwtoriaid gwirfoddol yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth barhau i ddatblygu a rhoi ar waith Raglen Cleifion Arbenigol Cymru. Mae cyrsiau'r Rhaglen Cleifion Arbenigol yn gwneud cyfraniad pwysig o ran helpu unigolion sydd â chyflyrau iechyd hirdymor i fagu hyder ac adennill rheolaeth dros eu bywydau. Mae dros 4,000 o bobl wedi mynychu cyrsiau a thua 180 o diwtoriaid wedi cael eu hyfforddi yng Nghymru ers 2002.
- Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ddigwyddiad prynwyr/darparwyr ar gyfer hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector trwy gyfrwng caffael effeithiol.
- Parhau y mae gwaith Llywodraeth y Cynulliad ar fenter 'Ymfalchïo yn ein Cymunedau'. Er enghraifft, yn y De-orllewin, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â changen Cymru o Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain (BTCV Cymru) i noddi ar y cyd Swyddog Prosiect er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn ardaloedd Penlan, Blaen-y-maes a Townhill, Abertawe. Roedd digwyddiadau tacluso'n cael eu trefnu gyda thrigolion lleol a phlant ysgol yn cymryd rhan. Yn ystod gaeaf 2008, trefnodd Llywodraeth y Cynulliad ddigwyddiad yn safle Selco, cyflenwyr adeiladwyr yn Llansamlet lle siaradwyd â thros 30 o fusnesau am eu dyletswydd i ofalu ac er mwyn cael ar ddeall sut y maent yn delio â'u gwastraff ar hyn o bryd.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu gwaith mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Coed Cadw (rhan o Cyswllt Amgylchedd Cymru) a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt. Mae Coed Cadw hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i gyflawni Plant! Sef ymrwymiad Cymru'n Un i blannu coeden am bob plentyn sy'n cael ei eni neu ei fabwysiadu yng Nghymru. Hyd yn hyn mae 22,000 o goed llydanddail cymysg, cynhenid wedi cael eu plannu yng Nghefn Ila, ger Brynbuga, ac mae safle arall yn awr yn cael ei blannu ger Tywyn.
- Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi arbed dros £1 miliwn y mis yn dilyn lansio rhaglen cyfnewidcymru, sy'n darparu trefn lle gall pob sefydliad yn y sector cyhoeddus drwy Gymru benbaladr ganfod cyflenwyr ac archebu a thalu am nwyddau trwy glicio botwm.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi sicrhau bod y Trydydd Sector yn cael ei gynrychioli ym mhob un o chwe Maes y Cynllun Gofodol. Cynllun 20 mlynedd yw Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n hollbwysig bod y Trydydd Sector a'u cynrychiolwyr yn parhau i gydweithio a chymryd rhan yn hyn fel y bydd blaenoriaethau Cynllun Gofodol Cymru yn cael eu rhoi ar waith a'u cyflawni.

# Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Cydweithio â'r Trydydd Sector

## Cynllun y Sector Gwirfoddol – Cynllun Unigryw

Mae Cynllun Sector Gwirfoddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod y fframwaith ar gyfer holl waith Llywodraeth y Cynulliad gyda'r Trydydd Sector. Mae'n cynnwys trefniadau ar gyfer ymgynghori, gweithio mewn partneriaeth â'r Sector a hefyd ariannu.

**Beth yw'r Trydydd Sector?**

"Mae'r Trydydd Sector yn eang iawn, gan gwmpasu bron pob agwedd ar ddiddordeb dynol. Mae cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, elusennau, mudiadau seiliedig ar ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, sefydliadau cydweithredol a mudiadau cydfuddiannol." (o'r Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol, neu'r "Trydydd Dimensiwn").



**Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector – ymgysylltu â'r Sector**

Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, sef Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol gynt, yn cynnwys cynrychiolwyr o 25 categori a enwyd yn y Trydydd Sector a thri chynrychiolydd o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Cynhelir cyfarfodydd y Bartneriaeth ym mhob cwr o Gymru, mewn adeiladau sydd ym mherchnogaeth y gymuned, megis canolfannau cymunedol, lle bo modd. Anogir aelodau o'r cyhoedd i'w mynychu. Mae cofnodion cyfarfodydd y Bartneriaeth ar gael ar-lein yn

http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/partnership/agendas/?skip=1&lang=cy

**Y "Trydydd Dimensiwn" – Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud?**

Ers 2004, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol mewn ymgynghoriad â'r Trydydd Sector. Cafodd y cynllun, a elwir "Y Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol", ei gyhoeddi a'i gylchredeg i fuddgyfranogwyr yn Ionawr 2008. Gellir gweld a lawrlwytho'r "Trydydd Dimensiwn" yn

http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/publications/thethirddimension/?skip=1&lang=cy

Enwodd y Trydydd Dimensiwn 45 o Gamau y dylai Llywodraeth y Cynulliad a'r Sector eu cymryd, wedi'u trefnu dan bum prif bennawd (Amcanion) ar y thema "Grymuso Pobl a Chymunedau", gyda thri fframwaith ategol allweddol (Fframweithiau ar gyfer Grymuso). Dyma gonglfaen gwaith Llywodraeth y Cynulliad wrth hyrwyddo ac estyn ei phartneriaeth a'r Trydydd Sector.

# Gwerthfawrogi Gweithredu Gwirfoddol

Gellir disgrifio gwirfoddoli fel rhoi amser ac egni o'ch gwirfodd heb ddisgwyl budd ariannol. Mae'n gallu disgrifio cannoedd o wahanol weithgareddau y bydd pobl yn dewis eu gwneud ac sydd o les a chymorth i bobl eraill yn y gymuned.

Mae'n gallu cynnwys gwahanol weithgareddau megis gwasanaeth cymunedol, hunangymorth, elusen, bod yn gymdogol, dinasyddiaeth, gwasanaeth cyhoeddus, gweithredu cymunedol, cymryd rhan mewn pethau yn y gymuned, neu weithredu fel ymddiriedolwr, aelod neu gynorthwyydd.

Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw adeiladu ar y seiliau presennol a gwella ansawdd bywyd pobl yn ein cymunedau. Un ffordd o wneud hyn yw trwy annog pobl i roi rhywfaint o'u hamser i wirfoddoli ac ennill sgiliau newydd, gwneud ffrindiau, magu hyder ac efallai cael tipyn o hwyl yn gwneud hyn i gyd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu ystod o wahanol fentrau gyda'r bwriad o adeiladu ar sail gweithgarwch gwirfoddol ac annog pobl i wirfoddoli.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymdrechu i annog mwy o bobl i wirfoddoli, gan gynnwys pobl ifanc, trwy ddatblygu GwirVol, sef y fenter arloesol ar gyfer gwirfoddoli sy'n cael ei harwain gan bobl ifanc.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi parhau gyda'i rhaglen wirfoddoli ar gyfer ei gweithwyr ei hun ac wedi annog cyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i hyrwyddo cyfleoedd i'w staff wirfoddoli a datblygu eu rhaglenni eu hunain i'w gweithwyr gael cyfle i wirfoddoli.

Rhoddwyd yr amcanion cyffredinol hyn ar waith trwy gyfrwng nifer o raglenni ar gyfer ariannu gweithgareddau, gan gynnwys y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru, Gwirfoddolwyr y Mileniwm a Menter y Gymdeithas Fyw.



Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi parhau i hyrwyddo manteision gweithredu gwirfoddol. Un o'r pethau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud yw darparu pecyn gyrfaol ar gyfer y rhai sy'n chwilio am gyflogaeth sydd, ymhlith pethau eraill, yn annog pobl, yn enwedig pobl ifanc, i wirfoddoli.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd ati i hyrwyddo rhaglenni sy'n helpu pobl i ddeall beth yw ystyr bod yn ddinesydd, a datblygu eu hymwybyddiaeth eu hunain o ystyr byw yn eu cymuned gan gyfranogi'n effeithiol a chyfrifol. Ariennir prosiectau a fydd yn hyrwyddo gwirfoddoli fel modd i wneud cyfraniad i ddatblygiad ac adfywiad cymunedol.

# Grymuso Cymunedau



Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno cefnogi prosiectau sydd yn rhoi mwy o sylw i waith gwirfoddolwyr a'r rhai sy'n gwneud pethau yn eu cymuned, gan hybu mwy o weithgarwch o'r fath. Y gobaith yw y bydd prosiectau a rhaglenni hirdymor yn gwneud i bobl ledled Cymru deimlo unwaith eto eu bod yn rhan o gymuned. Un o'r agweddau pwysicaf ar ddatblygu cymunedau yw parodrwydd a gallu pobl i wneud cyfraniad gwirfoddol at fywyd eu cymuned. Un enghraifft a welir ar hyn o bryd o annog pobl i gymryd rhan yn y gymuned a sicrhau newid yw rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth y Cynulliad.

Nod Cymunedau yn Gyntaf yw galluogi cymunedau sydd dan anfantais benodol, yn ddaearyddol ac yn thematig, i gael mwy o lais o ran diffinio eu hanghenion a chynllunio'r gwasanaethau a fydd yn diwallu'r anghenion hynny.

Cynlluniwyd y rhaglen er mwyn helpu cymunedau i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol fel y gallant hwy eu hunain gydweithio â phartneriaid strategol er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy ac ymgodymu ag anfanteision cymdeithasol. Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol sy'n dod â phobl at ei gilydd ym mhob ardal Cymunedau yn Gyntaf.

Er mwyn cefnogi hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi noddi Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf. Cynllun grant yw hwn a weinyddir ar ran Llywodraeth y Cynulliad gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ei ddiben yw cefnogi unrhyw fath o weithgarwch sy'n rhoi cyfle i bobl leol gymryd rhan, trwy gyfrwng mudiadau bach yn y gymuned, ac sydd o fudd i'r gymuned mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Ers 2002, mae Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi cynorthwyo dros 8,800 o grwpiau bach gwirfoddol ac mae cyfanswm yr arian a roddwyd yn £4.2 miliwn hyd at Ebrill 2009.

Yn ward Llanion ger Doc Penfro, rhoddwyd £20,000 yn 2008-09 ar gyfer gwersi dawns a gwersi ar ddefnyddio'r rhyngrwyd. Parhaodd grŵp trefnu Gŵyl Doc Penfro i gynnal digwyddiadau a gweithdai yn para wythnos, ar gyfer yr ŵyl ganol haf. Darparwyd arian hefyd yn Abermo er mwyn gwella ymddangosiad cyffredinol yr ardal a chynllunio'n strategol ar gyfer ei dyfodol.

Mae Cymru'n wlad flaengar sy'n dangos tosturi ac sy'n edrych y tu hwnt i'w ffiniau ei hun. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi chwarae rhan amlwg ym Mhrosiect Cymunedau Seren Aur,

gan greu cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a chymunedau yn Affrica Is-Sahara. Datblygwyd Prosiect Cymunedau Seren Aur mewn partneriaeth rhwng Tasglu Cymdeithas Sifil Cymru a BUILD UK (Building Understanding through International Links for Development), ac mae'n cael ei reoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'n cael ei gydnabod gan Raglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig fel cynllun peilot er mwyn pennu'r nodweddion gorau sydd i'w ceisio wrth greu cysylltiadau rhwng gwledydd yn hemisfferau'r Gogledd a'r De.



Mae partneriaeth Prosiect Cymunedau Seren Aur yn anelu at hyrwyddo datblygu cymunedol a dysgu yn y ddwy gymuned, gan ganolbwyntio ar bum prif bwynt (neu 'sêr aur') sef iechyd, bywoliaeth, yr amgylchedd, plant a chytgord cymdeithasol.

Yma yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi annog pobl i chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau ac wedi darparu £53,000 ar gyfer Cyfranogaeth Cymru yn 2008-09 er mwyn hyrwyddo hynny. Mae Cyfranogaeth Cymru yn darparu hyfforddiant, cefnogaeth, gwybodaeth a chyfeiriad o ran polisi, ar gyfer ymgysylltiad dinasyddion a chymunedau a datblygiad ac adfywiad yn y maes.

Enghraifft wych o'r ffordd hon o weithio yw Neuadd y Gweithwyr ym Mlaengarw ger Pen-y-bont ar Ogwr. Yma defnyddir dull "bancio amser" er mwyn cael pobl yn y gymuned i ymgysylltu trwy ddefnyddio eu hamser fel math o arian. Pan fyddant yn rhoi o'u hamser, byddant yn ennill credydau amser. Gellir defnyddio'r credydau hyn i dalu am ddigwyddiadau cymdeithasol yn y neuadd, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i gymuned i bobl y pentref ac yn gwneud iddynt fod eisiau chwarae eu rhan yn y gymuned.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi ariannu naw o Grantiau Mentrau Dinesig, yn dod i gyfanswm o £9,311.51 yn ystod 2008-09. Diben y grantiau hyn yw hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol, yn enwedig mewn cymunedau lleol.

Mae Cadw yn defnyddio rhywfaint o'r arian y mae'n ei gael gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn atgyweirio adeiladau hanesyddol sy'n eiddo i'r Trydydd Sector a/neu sydd ar gael at ddefnydd y gymuned. Ym Merthyr, defnyddiwyd £5,000 o'r cynllun grantiau Adeiladau Hanesyddol ar gyfer Prosiect Cymunedol y Peiriandy, i atgyweirio hen adeilad diwydiannol. Mae bellach yn cael ei ddefnyddio unwaith yn rhagor, fel canolfan gymunedol lle darperir amrywiaeth eang o wahanol weithgareddau gan gynnwys symudiadau calonogi, chwaraeon a hyfforddi cŵn.

# Hwyluso Iaith y Dinesydd

Mae ymgysylltu'n well â'r cyhoedd yn rhan bwysig o raglen Cymru'n Un Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod nad defnyddwyr goddefol yn unig yw pobl, ond yn hytrach fod ganddynt ddiddordeb cynyddol mewn chwarae rhan weithredol mewn trafodaethau a fydd yn dylanwadu ar y mathau o wasanaethau y maent yn eu derbyn a'r mathau o gymunedau y maent yn byw a gweithio ynddynt. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi grymuso pobl er mwyn iddynt leisio eu barn yn fwy uniongyrchol mewn nifer o ffyrdd eraill gan gynnwys ein Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Ymdrechodd Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod cyrff sy'n rhoi gwasanaethau cyhoeddus yn darparu cyfle i bobl leol helpu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy.

Mae gwaith ar y gweill i roi ar waith Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a fydd yn gosod dyletswydd newydd ar yr awdurdodau lleol a phartneriaid lleol eraill i ofalu bod cyrff yn y Trydydd Sector yn chwarae eu rhan mewn cynllunio cymunedol.



At hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mynd ati i sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol ym mhob rhan o Gymru. Cynrychiolwyr darparwyr gwasanaethau lleol yw aelodau'r Byrddau. Eu nod yw helpu cyrff lleol i gydweithio a gwella'r gwasanaethau y mae pobl leol yn eu cael yn ogystal â mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a all godi.

Mae gan ardal pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru Fwrdd Gwasanaethau Lleol. Fel rheol mae'r aelodau'n cynnwys prif weithredwr yr awdurdod lleol, prif weithredwr y bwrdd iechyd lleol, cynrychiolydd o blith uwch swyddogion yr ymddiriedolaeth GIG leol, uwch swyddog o'r heddlu perthnasol, uwch swyddog o Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyfarwyddwr y cyngor gwasanaethau gwirfoddol sirol lleol.

Lle bo hynny'n briodol, mae aelodau'r Trydydd Sector ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn arwain ar brosiectau ac yn eu hyrwyddo ar lefel y bwrdd. Mae'r Sector hefyd yn cyfrannu pan fydd prosiectau'n cael eu cyflawni ar lawr gwlad.

## Cyflymu Menter Gymdeithasol

- Ym mis Chwefror 2009, lansiwyd Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol newydd i Gymru, i olynu Strategaeth Mentrau Cymdeithasol 2005. Datblygwyd y Cynllun Gweithredu mewn ymgynghoriad â'r Trydydd Sector ac mae'n cynnwys 20 o gamau gweithredu allweddol er mwyn datblygu mentrau cymdeithasol sy'n bodoli a rhai newydd yng Nghymru.

- Ym mis Mai 2008 comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad Sector Projects, Geoeconomics a'r Uned Ymchwil i gynnal ymarfer i fapio a rhoi darlun sylfaenol o weithgareddau mentrau cymdeithasol ledled Cymru. Nod cyffredinol yr astudiaeth oedd sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a manylach o faint, cwmpas, natur, cyflwr a swyddogaeth mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn helpu Llywodraeth y Cynulliad i benderfynu sut y gall dargedu'r cymorth y mae'n ei roi i fentrau cymdeithasol yn well.

- Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i ymchwilio i sut y gellir datblygu corff cynrychioliadol newydd ar gyfer mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Disgwylir y bydd Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru wedi'i sefydlu yn fuan yn 2010.

- Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi sefydlu Grŵp Cynghori newydd i'r Gweinidog ar Fentrau Cymdeithasol. Mae'r grŵp newydd hwn yn rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â mentrau cymdeithasol.



- Rhoddodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio anerchiad yng Nghynhadledd flynyddol VOICE Cynghrair Mentrau Cymdeithasol y DU, yn Chwefror 2009 yn Birmingham, gan wahodd y gynhadledd bwysig hon i Gymru ar gyfer 2010. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Arena Rhyngwladol Caerdydd ar Chwefror 1 a 2, 2010.

- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Gronfa Loteri Fawr er mwyn datblygu Cronfa newydd ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Cronfa gyfalaf a refeniw sy'n werth £13 miliwn yw hon ac fe agorodd ar gyfer ceisiadau ym mis Hydref 2009.

- Mae'r Trydydd Sector yn parhau i gydweithio'n agos â Gwerth Cymru i ganfod cyfleoedd i fusnesau yn y Trydydd Sector wella'r modd y maent yn tendro i ddarparu gwasanaethau

cyhoeddus. Mae Gwerth Cymru wedi datblygu Canllaw Cynllunio Caffael newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol, i symleiddio'r broses ar gyfer caffaelwyr gofal cymdeithasol. Mae'n unigryw yn y DU.

- Gyda chymorth £3.6 miliwn o arian cyfatebol gan Lywodraeth y Cynulliad, bu Canolfan Cydweithredol Cymru yn llwyddiannus yn eu cais am arian Cydgyfeirio ar gyfer helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r prosiect hwn yn werth £7.2 miliwn a bydd yn gweithio ledled yr holl ardaloedd Cydgyfeirio, gan osod targedau heriol i ddarparu cymorth i fentrau cymdeithasol mewn dau faes. Bydd y maes cyntaf yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfraniad y mae mentrau cymdeithasol yn ei wneud at adfywio cymdeithasol ac economaidd a bydd yr ail faes yn darparu cyngor a chymorth i fentrau cymdeithasol sydd ar fin dechrau, gwasanaeth mentora, hyfforddiant (gan gynnwys gweithdai a dosbarthiadau meistr) a rhoi gwybod am asiantaethau cymorth eraill a all barhau i gynnig cymorth.



- Cytunodd Llywodraeth y Cynulliad hefyd i ddarparu £1.3 miliwn o arian dros dair blynedd (2008-09 – 2010-11) ar gyfer Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Mentrau Cymdeithasol Cymru a Chronfa Bancio Gymunedol Robert Owen er mwyn darparu gwasanaethau cymorth sy'n arbennig ar gyfer sector y mentrau cymdeithasol.

- Cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ddigwyddiad prynwr/darparwr ym Mai 2008, ar gyfer hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r Trydydd Sector trwy gyfrwng caffael effeithiol.

## Personoli Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn golygu bod angen i'r cyrff sydd mewn partneriaeth gydweithio fel nad yw ffiniau rhwng sectorau, mudiadau neu broffesiynau yn rhwystr rhag diwallu anghenion unigol pobl.

Mae perthnasoedd y Trydydd Sector â defnyddwyr ei wasanaethau, sy'n aml yn rhai agos, yn gallu ei helpu i hyrwyddo 'cyd-gynhyrchu' canlyniadau, lle mae buddiolwyr yn bartneriaid cyfartal â gweithwyr proffesiynol wrth drawsnewid gwasanaethau i'w gwneud yn addas at eu hanghenion.

Drwy weithredu fel cyfryngwyr rhwng pobl a gwasanaethau cyhoeddus, gall mudiadau Trydydd Sector wella'r rhyngweithio rhwng y ddau yn aml. Gall hyn helpu i yrru arloesedd, rhoi llais democrataidd i bobl a hybu dinasyddiaeth weithredol. Gall y Trydydd Sector hefyd hyrwyddo atebolrwydd, drwy ddarparu rôl herio ac eirioli ar ran dinasyddion ar gyrion cymdeithas.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu at arian craidd Gofal a Thrwsio Cymru a'i asiantaethau. Dyfarnwyd £4.5 miliwn i'r corff hwn yn 2008-09. Nod y gwasanaeth yw helpu pobl hŷn i aros yn eu cartrefi eu hunain mor hir ag y gallant, trwy eu helpu i gael cymorth priodol, yn ariannol ac fel arall (e.e. trwy gael gwneud gwaith trwsio, adnewyddu ac addasu) yn unol â'u hangen. Cafodd y corff hwn hefyd £2.1 miliwn yn 2008-09 ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys. Rhaglen ataliol yw hon sy'n cynnig amrywiol waith trwsio bach, fel y gall pobl hŷn neu oedolion sy'n agored i niwed aros yn eu cartrefi eu hunain gan osgoi mynd i'r ysbyty neu i ofal preswyl. Gall hefyd olygu bod modd iddynt ddod adref yn gynt o'r ysbyty. Mae Gofal a Thrwsio Cymru a'r asiantaethau unigol yn cydweithio'n agos iawn â chyrff eraill sy'n bartneriaid iddynt yn y sector statudol a'r Trydydd Sector, er mwyn gweithredu polisïau cenedlaethol ar dai, iechyd a lles a gofal cymdeithasol.



Darparodd Cynllun Grant Iechyd Meddwl Lleol Llywodraeth y Cynulliad tua £2.2 miliwn o arian y llynedd er mwyn cefnogi a chyfoethogi cyfraniad y Trydydd Sector at ofal pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl, a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Mae'r grant hwn hefyd yn ariannu'r Gwasanaeth Datblygu Lleol mewn iechyd meddwl, sy'n helpu i gynghori, cyfarwyddo a goleuo datblygiad a chynaliadwyedd mudiadau Trydydd Sector lleol ym maes iechyd meddwl. Ymhlith y gweithgareddau sydd wedi cael cymorth y mae canolfannau galw heibio, llety â chymorth, rhaglenni gweithgareddau a gwasanaethau gwybodaeth a chymorth. Trwy'r grantiau hyn y gobaith yw y bydd llai o bwysau ar y

gwasanaethau cymdeithasol ac y bydd pobl yn teimlo fod lle iddynt yn y gymuned a phobl eraill yn eu deall.

Darparodd Llywodraeth y Cynulliad £3 miliwn yn ychwanegol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael a cheisio sicrhau bod mwy o bobl yn hawlio budd-dal y dreth gyngor a budd-dal tai. Gobeithio y bydd yr arian hwn yn cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag hawlio budd-dal ac yn sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael. Comisiynwyd ymchwil a chyhoeddwyd adroddiad sy'n gwneud nifer o argymhellion i'r awdurdodau lleol, gan gynnwys dweud wrthynt y dylai eu ffurflenni hawlio a'r cyfarwyddiadau fod mor glir a syml â phosibl, ac y dylid hyfforddi staff i helpu'r rhai sy'n hawlio i fynd drwy'r broses.



Rhai rhwystrau eraill a welwyd oedd diffyg gwybodaeth am fudd-daliadau, ofn y byddai'r hawlydd yn colli budd-daliadau eraill neu y byddai'n rhaid iddynt fynd i ofal.

Mae gofalu bod teuluoedd yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt yn faes pwysig yn ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni'r hyn yr ymrwymodd iddo yn Cymru'n Un o ran mynd i'r afael â thlodi ymhlith pensiynwyr a phlant.

Cyhoeddwyd y byddai £4 miliwn ar gael hefyd er mwyn annog pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y gymuned i ailddechrau gweithio. Darperir y gronfa (dan arweiniad Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan) er mwyn helpu'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, yn enwedig menywod mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, i ennill cymwysterau newydd a mynd i addysg bellach. Mae'r cynllun yn cael ei deilwrio i weddu i anghenion pob unigolyn, gyda'r bwriad o ddelio â'r rhwystrau penodol sy'n atal pobl o'r cymunedau hyn rhag gwneud cynnydd yn eu gyrfa.

## Ariannu'r Trydydd Sector

Mae'r Arweiniad i Grantiau Trydydd Sector Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gael ei ddiweddaru'n rheolaidd ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad:

**http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/grants/voluntary/?skip=1&lang=cy**

Mae'r "**Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector**" (y Cod) sydd gan Lywodraeth y Cynulliad, yn pennu sut y dylai Llywodraeth y Cynulliad a'i hasiantau ddelio â materion yn ymwneud ag ariannu'r Sector.

Mae'r Cod yn nodi'r math o arian y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddarparu, yr egwyddorion y dylid seilio penderfyniadau ynghylch ariannu arnynt, a'r amodau a'r telerau ar gyfer cynnig arian.

Anogir Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, a'r awdurdodau lleol, i ddatblygu eu codau ymarfer eu hunain ar gyfer ariannu'r Sector.


## Faint wnaeth Llywodraeth y Cynulliad ei wario ar y Trydydd Sector yn 2008-09?

Yn 2008-09 gwariodd Llywodraeth y Cynulliad bron £493 miliwn ar ariannu'r Trydydd Sector yn uniongyrchol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno i ddarparu dadansoddiad o'r taliadau y mae'n eu gwneud i'r Trydydd Sector bob blwyddyn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cydweithio ag Uned Ymchwil Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru er mwyn gwybod pa gyrff yn y Trydydd Sector sydd wedi cael taliadau uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hyn wedi golygu bod modd cael data mwy manwl gywir nag a gafwyd o'r blaen.

Nid yw'r siart isod yn cynnwys taliadau anuniongyrchol a wnaed i gyrff yn y Trydydd Sector, lle mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu arian i gorff arall, awdurdod lleol er enghraifft, a ddefnyddiwyd wedyn efallai i noddi cyrff yn y Trydydd Sector.

**Gwariant Uniongyrchol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Trydydd Sector 2008-09.**



# Mae'r dadansoddiad ar gyfer 2008-09 i'w weld isod.

## Gwariant Uniongyrchol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Trydydd Sector 2008-09

| **Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes** | |
|---|---|
| Anghenion a Dysgu Ychwanegol | £59,170.46 |
| Dysgu Ychwanegol | £68,415.28 |
| Asesu | £192,843.00 |
| Polisi Sgiliau Sylfaenol | £15,000.00 |
| Sgiliau Sylfaenol | £3,148,255.07 |
| Datblygu Busnes | £235,769.31 |
| Busnes a Sgiliau | £842,827.11 |
| Arian Cyfalaf ac Ysgolion | £3,113,813.97 |
| Arian Cyfalaf | £3,721,040.74 |
| Rhaglen Plant a Theuluoedd | £270,634.00 |
| Plant a Theuluoedd | £243,048.66 |
| Strategaeth Plant | £175,000.00 |
| Plant a Phobl Ifanc | £5,154,325.91 |
| Cwricwlwm ac Asesu | £3,217,852.17 |
| Addysg y Blynyddoedd Cynnar | £17,500.00 |
| Estyn | £101,807.81 |
| Plant Lleiafrifoedd Ethnig | £2,042.16 |
| Cyfnod Sylfaen B | £17,500.00 |
| Ariannu a Chyllid Myfyrwyr | £3,899,110.32 |
| Rheoli Gwybodaeth | £259,630.00 |
| Dysgu Gydol Oes | £4,698,866.69 |
| Polisi Dysgu Gydol Oes | £14,525,558.84 |

| | |
|---|---|
| Ariannu Rhaglenni Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | £368,629.19 |
| Marchnata | £139,864.02 |
| Mesur Perfformiad | £44,341.65 |
| Cynllunio ac ariannu | £2,440,051.77 |
| Cyhoeddiadau | £37,564.45 |
| Ennyn Diddordeb Disgyblion | £29,300.00 |
| Rheolaeth Ysgolion | £44,422.30 |
| Sgiliau, Busnes a Chyflogaeth | £43,768.50 |
| Datblygu Sgiliau | £5,193.50 |
| Cymorth i Ddysgwyr | £69,096.52 |
| Ymchwil a Gwerthuso | £47,575.00 |
| Hawliau | £431,292.50 |
| Cymwysterau Galwedigaethol a Dysgu Gydol Oes | £24,118.14 |
| Datblygu'r Gymraeg | £63,818.50 |
| Dysgu Ieuenctid ac Oedolion | £249,619.00 |
| Strategaeth Gwaith Ieuenctid | £48,156.50 |
| **Yr Economi a Thrafnidiaeth** | |
| Marchnata'r Adran Economi a Thrafnidiaeth | £14,500.00 |
| Trafodion Economaidd ac Ariannol | £9,675.00 |
| Menter | £1,328,870.45 |
| Materion Ewropeaidd ac Allanol | £344,280.83 |
| Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol | £466,351.93 |
| Busnes Rhyngwladol | £201,540.22 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | £89,868.31 |
| Buddsoddi Cymru | £919,055.00 |

| | |
|---|---|
| Y Banc Gwybodaeth | £18,532.76 |
| Datblygu Rhanbarthol Canolbarth Cymru | £649,734.19 |
| Seilwaith Rhanbarthol Canolbarth Cymru | £22,706.00 |
| Cwsmeriaid Rhanbarthol Gogledd Cymru | £4,043.18 |
| Datblygu Rhanbarthol Gogledd Cymru | £1,705,751.48 |
| Grantiau Adran | £719,264.00 |
| Datblygu Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru | £1,542,407.53 |
| Seilwaith Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru | £27,734.43 |
| Datblygu Rhanbarthol De-orllewin Cymru | £1,819,653.89 |
| Seilwaith Rhanbarthol De-orllewin Cymru | £190,000.00 |
| Rhaglen Adfywiad Strategol a Blaenau'r Cymoedd | £3,867,586.59 |
| Technoleg ac Arloesi | £119,262.08 |
| Cynllunio Trafnidiaeth | £1,215,863.00 |
| WEFO | £29,733,711.54 |
| **Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Thai** | |
| Cronfa Gynaliadwyedd yr Ardoll Agregau | £852,864.28 |
| Atal Llosgi ac Ymwybyddiaeth Carbon Monocsid | £13,059.99 |
| Tai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | £296,278.85 |
| Y Newid yn yr Hinsawdd | £112,752.00 |
| Annog Cymunedau i Helpu'i Gilydd | £86,299.09 |
| Amgylchedd Cymru | £1,050,000.00 |
| Grantiau Digartrefedd a Phobl Heb Do Uwch eu Pennau | £5,847,424.20 |
| Asiantaethau Gwella Cartrefi | 18,088,009.20 |
| Cadwch Gymru'n Daclus | £1,364,873.00 |
| Ansawdd Amgylcheddol Lleol | £558,104.55 |

| | |
|---|---|
| Cymorth Cynllunio Cymru | £100,000.00 |
| Rhaglen Addasiadau Brys | £2,460,088.75 |
| Grant Tai Cymdeithasol – Wanless | £26,965,712.00 |
| Grant Tai Cymdeithasol | £93,110,036.00 |
| Rheoli Tai Cymdeithasol | £1,046,586.64 |
| Archwiliadau Rhanbarthol Tai Cymdeithasol | £22,968.64 |
| Grant Refeniw Cefnogi Pobl – Cyfalaf Camddefnyddio Sylweddau | £2,776,571.00 |
| Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol | £14,989,763.00 |
| Grant Refeniw Cefnogi Pobl | £42,003,391.15 |
| Cronfa Datblygu Cynaliadwy | £367,728.08 |
| Sustrans | £210,000.00 |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru | £21,000.00 |
| Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu | £2,253,690.83 |
| Mynediad i'r Dŵr, Sblash | £15,000.00 |
| Cymorth ar gyfer Safonau Ansawdd Tai Cymru | £17,080,282.00 |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| CAFCASS Cymru | £179,845.26 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | £76,640.99 |
| Rhoi Plant yn Gyntaf | £54,358.36 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | £4,127,384.20 |
| Gofal Iechyd Cymunedol Sylfaenol | £5,748,439.77 |
| Strategaeth Iechyd | £138,574.10 |
| Polisi a Datblygu Iechyd | £75,982.75 |
| Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor | £4,254,615.04 |
| Proffesiynau Iechyd Cyhoeddus a Gofal Iechyd | £1,686,576.12 |

| | |
|---|---|
| Gwella Ansawdd, Safonau a Diogelwch | £21,728.59 |
| Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau | £159,508.46 |
| Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | £10,134,620.00 |
| **Treftadaeth** | |
| Henebion | 75,990.73 |
| Adeiladau Hanesyddol | 55,080.46 |
| Grantiau i Eglwysi | 888,778.00 |
| Grantiau i Sefydliadau nad ydynt yn Gwneud Elw a Chymdeithasau Amwynderau | 454,266.00 |
| Cefnogi Masnach a Digwyddiadau | 840,986.53 |
| Ymddiriedolaethau a Chymdeithasau Archaeolegol | 1,411,285.89 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 30,957,071.77 |
| Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru | 114,724.76 |
| Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd | 283,171.22 |
| Marchnata | 129,135.25 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 550,000.00 |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | 25,124,809.90 |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru | 293,870.33 |
| Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig | 98,595.15 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | 24,061,000.00 |
| Partneriaeth Twristiaeth De-orllewin Cymru | 763,354.34 |
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | 988,000.00 |
| Canolfan Mileniwm Cymru | 2,916,777.21 |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 3,736,764.89 |
| Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru | 70,180.00 |

## Materion Gwledig

| | |
|---|---|
| Polisi Cefn Gwlad | £1,709,840.34 |
| Pysgodfeydd | £80,198.00 |
| Bwyd, Pysgod a'r Farchnad | £104,349.68 |
| Polisi a Strategaeth Bwyd | £5,246.42 |
| Uned Marchnata Datblygu | £533,881.70 |
| Datblygu Rhanbarthol yn y Gogledd | £32,827.22 |
| Datblygu Rhanbarthol yn y De Ddwyrain | £2,044.21 |
| Polisi Gwledig | £17,099.00 |
| Rheoli Cynlluniau | £44,263.04 |
| Rheoli Tir yn Gynaliadwy | £105,659.45 |
| Gwasanaethau Technegol | £25,000.00 |
| Tir Gofal | £11,938.00 |

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | £625,846.00 |
| Tlodi Plant | £49,381.15 |
| Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol | £8,909,023.67 |
| Cymunedau yn Gyntaf | £13,865,193.66 |
| Cymunedau@Ei Gilydd | £4,140,066.69 |
| Diogelwch Cymunedol – Tân | £467,245.26 |
| Diogelwch Cymunedol – Camddefnyddio Sylweddau | £243,778.72 |
| Diogelwch Cymunedol – Trais yn y Cartref | £3,030,693.29 |
| Her Gorfforaethol | £94,227.10 |
| Cynhwysiant Ariannol | £414,736.48 |
| GwirVol | £962,302.89 |

| | |
|---|---|
| Sipsiwn a Theithwyr | £17,858.82 |
| Ymchwil Tai | £75,524.00 |
| Ymchwil Llywodraeth Leol | £8,875.00 |
| Ymchwil i Addysg | £33,000.00 |
| Gwirfoddolwyr y Mileniwm | £332,561.00 |
| Menter Gymdeithasol | £448,531.27 |
| Y Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol | £107,889.47 |
| Seilwaith y Trydydd Sector | £5,428,330.25 |
| Y Gronfa Gwirfoddoli yng Nghymru | £627,801.00 |
| Cymdeithas Fyw Cymru | £1,064,317.00 |
| Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan | £102,500.00 |
| Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo | £1,420,000.00 |
| Uned Cofnodion Troseddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | £453,000.00 |
| Cyngor Cyrff Gwirfoddol Lleiafrifoedd Ethnig - Cymru | £16,666.00 |
| Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru | £183,700.00 |
| Groundwork Cymru | £1,013,350.00 |
| Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol | £468,628.25 |
| Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig, Cymru | £57,500.00 |
| Cymdeithas Integreiddio Somaliaid | £20,000.00 |
| Cymorth i Ddioddefwyr Cymru | £68,150.00 |
| Canolfan Cydweithredol Cymru | £171,027.80 |
| Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru | £78,797.00 |
| Gweithdy Menywod Canolfan Hyfforddi Caerdydd | £30,868.00 |
| | **£492,945,531.60** |

## Ffigurau i Gymharu Gwariant

Mae Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael eu hailstrwythuro ac mae hyn yn golygu na ellir yn rhwydd gosod y tablau ar gyfer ffigurau 2008-09 ochr yn ochr â'r rhai ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

## Rhagor o Wybodaeth

I gael gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r Trydydd Sector, ewch i: www.wales.gov.uk/themesvoluntarysector/index.htm.

Gallwch weld copïau o bapurau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Adroddiadau Blynyddol blaenorol, y Trydydd Dimensiwn – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol, y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a'r Canllaw i Grantiau Trydydd Sector Llywodraeth Cynulliad Cymru etc yno.

Neu cysylltwch ag Uned y Trydydd Sector yn thirdsectorqueries@wales.gsi.gov.uk, neu ar y rhif ffôn (01685) 729271.

I gael gwybodaeth am wirfoddoli, ewch i www.volunteering-wales.net neu ewch i'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol neu Ganolfan Wirfoddol leol. http://www.wcva-ids.org.uk/.

I gael gwybodaeth am raglenni grantiau eraill, cysylltwch â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar y rhif (029) 20431700. Ei wefan yw www.wcva.org.uk. Neu ewch www.sustainablefundingcymru.org.uk/.

Y Gronfa Loteri Fawr www.biglotteryfund.org.uk/, rhif ffôn: (029) 2067 8200, E-bost: enquiries.wales@biglotteryfund.org.uk

Efallai y gall Ymddiriedolaeth y Tywysog www.princes-trust.org.uk, rhif ffôn (029) 2043 7000, e-bost webinfowa@princes-trust.org.uk helpu hefyd.